**HYSBYSIAD CYHOEDDUS**

**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**
**(CILFFORDD SYDD AR AGOR I UNRHYW DRAFFIG 57/74**
**LLWYBR ILLTUD SANT, PORTH TYWYN/PENYMYNYDD, LLANELLI)**
**(GWAHARDD GYRRU) 2016**

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

HYSBYSIR trwy hyn fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adran 1(1) a 2(1) i (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd a Deddf Rheoli Traffig 2004.
Effaith y Gorchymyn fydd:
Gwahardd unrhyw gerbyd rhag teithio ar hyd y darn ffordd a nodir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn (ac eithrio cerddwyr, ceffylau, beicwyr a phreswylwyr sy'n byw ar hyd y Gilffordd).

Mae manylion llawn am y cynnig hwn yn y Gorchymyn drafft, a gellir archwilio copi ohono ynghyd â map sy'n dangos y darn ffordd yr effeithir arno a datganiad am resymau'r Cyngor dros fwriadu gwneud y Gorchymyn, yn swyddfeydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Yr Hwb, Stryd Stepney, Llanelli yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

Os ydych am wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig dylech gyflwyno eich rhesymau dros wrthwynebu ar ffurf llythyr a'i anfon at y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP erbyn y 18fed o Dachwedd, 2016.

**DYDDIEDIG y 26ain o Hydref, 2016**
**Cyfeirnod y Ffeil: RWJ/HTTR-1314**
**Llinell Uniongyrchol: (01267) 224074**
**e-bost: rwjones@sirgar.gov.uk**

**MARK JAMES**
**Y Prif Weithredwr**
**Neuadd y Sir,**
**CAERFYRDDIN**

**YR ATODLEN**

**Gwahardd Gyrru (ac eithrio Cerddwyr, Ceffylau, Beicwyr a Phreswylwyr sy'n byw ar hyd y Gilffordd)**

| **Enw'r Ffordd** | **Y darn ffordd yr effeithir arno** |
|---|---|
| Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig 57/74 Llwybr Illtud Sant rhwng Porth Tywyn a Phenymynydd. | O'i chyffordd â Heol Ddu, yr U2323 ym Mhenymynydd (ger yr eiddo a adwaenir fel Bwthyn Cornel) am bellter o 1.7 cilometr i gyfeiriad y de-orllewin, a dod i ben ger Capel Carmel, y Graig. |